

**Cymdeithas Gwenynwyr Cymru**  
**CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU**

Elusen Gofrestredig Rhif 509929



## **CANLLAWIAU GWEITHIO GYDA PHLANT CGC**

Arweiniad i ymddiriedolwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr eraill ar  
ran CGC

Adolygir y polisi hwn yn barhaus, o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd CGC yn adolygu'r  
polisi hwn, yn dilyn ymgynghori, lle y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Rhagfyr 2020

# Diogelu plant wrth ymgymryd â hyfforddiant gyda Chymdeithas Wenyn Leol yng Nghymru – Canllawiau Drafft

## 1. Cyflwyniad

Pan fydd unigolion yn ymgymryd â rolau yn ein cymdeithasau, rydym yn tybio y gallwn ymddiried ynndynt yn hyderus i ymddwyn yn deg ac yn onest a'u bod yn gwneud hyn er lles eu cymuned a gwenyn a'n gyffredinol. Gwaetha'r modd, mae profiad mewn meysydd eraill wedi gorfodi'r llywodraeth ganolog i edrych o'r newydd ar y ddeddfwriaeth a'r arweiniad sy'n gysylltiedig â diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Hefyd maent wedi newid y corff sy'n rhoi cymorth ac arweiniad ynghylch y ddeddfwriaeth am ddiogelu plant. Mae cymdeithasau yng Nghymru wedi cael peth trafferth wrth ddehongli'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad iddi fel y byddai'n berthnasol i'w gweithgareddau nhw. Bwriad y canlynol yw bod yn arweiniad syml i'r gofynion ac i unrhyw eithriadau a all fod yn berthnasol.

Y ddeddfwriaeth gyfredol a fyddai'n cwmpasu diogelwch plant ac oedolion agored i niwed, tra byddant yn cael eu hyfforddi gan aelodau cymdeithas wenyn leol, fyddai Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Disclosure and Barring Service (DBS)) yw'r corff sy'n rhoi peth o'r arweiniad i'r ddeddfwriaeth ac y byddech yn gofyn iddo am wybodaeth ynghylch pwy all gael ei wahardd rhag "gweithgaredd a reoleiddir" gyda phlant ac o dan ba amgylchiadau.

## 2. Diffiniadau

- a) Diffinnir plentyn fel rhywun o dan 18 oed.
- b) Byddai "Gweithgaredd a Reoleiddir", yn gwyno, fel y byddai'n berthnasol i weithgareddau cymdeithas wenyn, yn cynnwys:
  - i) Gweithgareddau addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am blant neu oruchwylio plant neu yrru cerbyd ar gyfer plant yn unig, a hynny heb eu goruchwylio.
  - ii) Gweithio gyda neu ar gyfer ystod gyfyngedig o sefydliadau sydd â chyfle i fod â chysylltiad â phlant, e.e. ysgolion, clybiau ieuencid, cartrefi plant neu eiddo gofal plant.

## 3. Cymhwyso

Byddai'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau sy'n cynnwys ein haelod-gymdeithasau'n cael eu cwmpasu gan Baragraff 2b)i) uchod, ond rydym yn ymwybodol y gall cymdeithasau weithio gydag ysgolion wrth addysgu plant sut mae cadw gwenyn.

O dan amgylchiadau arferol byddai person sy'n ymgymryd â "gweithgareddau a reoleiddir" heb eu goruchwylio gyda phlant wedi bod drwy wiriad Cofnodion Troseddol DBS, a phetai'n methu, byddai hynny'n golygu ei fod ef/ei bod hi'n cael ei wahardd rhag gwneud gweithgaredd o'r fath.

## 4. Eithriadau

Mae eithriadau sy'n cael eu cymeradwyo i'r uchod, a fyddai'n berthnasol i'r gofynion sydd ar gymdeithasau gwenyn, sy'n cynnwys:

- a) Nid yw gweithgaredd yn "weithgaredd a reoleiddir" yn ystyr y Ddeddf os yw'n cael ei wneud gan yr un person unwaith yr wythnos neu lai, neu ar 4 neu lai o ddiwrnodau mewn cyfnod o 30 diwrnod. Felly nid oes gofyniad cyfreithiol ar gymdeithasau gwenyn

i ofyn am wiriad DBS ar gyfer eu swyddogion hyfforddi a'u cynorthwyyr sy'n hyfforddi neu'n cyfarwyddo plant:

- i) Os nad yw'r sesiynau hyfforddi'n cael eu gwneud gan yr un swyddog gyda'r un plant fwy nag unwaith yr wythnos neu ar lai na 4 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod neu
- ii) Os bydd rhywun sydd wedi mynd drwy wiriad DBS yn llwyddiannus yn goruchwyllo swyddogion hyfforddi heb eu gwirio neu
- iii) Os yw rhiant pob un o'r plant sy'n cael ei hyfforddi'n bresennol ym mhob sesiwn neu
- iv) Lle gwneir yr hyfforddiant yn ffurfiol ar ran ysgol, dyletswydd yr ysgol yw cymeradwyo'r hyfforddwyr neu ddarparu goruchwyliaeth wedi'i chymeradwyo i'r gweithgaredd a reoleiddir.

## 5. Arfer dda

Plant yw dyfodol gwenyna ac ni ddylem ddefnyddio cymhlethdod deddfwriaeth i'n gwahardd rhag addysgu'r rhai sydd eisiau dysgu'r grefft. Mae'n well dysgu gan yr arbenigwyr yn hytrach nag allan o lyfr ond mewn amgylchedd diogel.

Mae'n anffodus bod angen inni "feddwl am yr hyn na ellir meddwl amdano" heddiw ond er mwyn sicrhau diogelwch i bob aelod o'r Gymdeithas yn ogystal ag i'r plant neu'r oedolion agored i niwed, efallai fod angen inni fynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol sylfaenol a datblygu codau ymarfer sy'n addas i'n cymdeithasau ni ein hunain a'u gweithgareddau.

Yn ymarferol gall fod angen cael 4 neu ragor o hyfforddwyr / mentoriaid pan fydd plant yn bresennol. Byddai hyn yn galluogi dau i fynd gyda'r plentyn sy'n cael ei anafu neu sy'n ofnus ac i leiafswm o ddau gael eu gadael gyda gweddill y dosbarth.

Fel cymdeithas, efallai y byddwch yn dymuno gwneud cais am wiriad cofnod troseddol ar o leiaf un o'ch swyddogion hyfforddi, a thalu am hyn. Y person hwn wedyn fyddai'n gweithredu fel goruchwylwr er ei bod hi'n bosibl, oherwydd maint y gwaith, y gall y DBS wrthod darparu gwiriad o'r fath petai'r eithriadau a nodwyd yn gymwys.